# Cofnodion Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF)

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod Microsoft Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 24 Mehefin 2024 |
| **Aelodau yn bresennol:** | Yr Athro Rhys A. Jones, Aelod Bwrdd CNC (Cadeirydd)<br>Michelle Griffiths, CNC<br>Dennis Matheson, TFA<br>Angharad Davies, CFfI Cymru<br>Rhys Jones, CNC<br>Sarah Hetherington, CNC<br>John Browne, CNC<br>Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru<br>Robert South, Confor |
| **Mynychwyr yn bresennol:** | Rhodri Powell, CNC<br>Suzanne Hearn, CNC |
| **Ymddiheuriadau:** | Ruth Jenkins, CNC<br>Tim Kirk, Confor<br>Gareth Parry, UAC<br>Jon Goldsworthy, CNC<br>Elaine Harrison, Confor<br>Hedd Pugh, NFU Cymru<br>Huwel Manley, CNC |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Bronwen Martin, CNC |

## Eitem 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant

1. Croesawodd yr Athro Rhys Jones (Cadeirydd WLMF) bawb i'r cyfarfod gan nodi’r ymddiheuriadau. Croesawodd Rhys Angharad Davies fel cynrychiolydd newydd CFfI Cymru. Mynychodd Robert Smith y cyfarfod i gynrychioli Confor.

2. Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas ag eitemau agenda.

3. Atgoffwyd y grŵp y bydd y cyfarfod yn cael ei recordio at ddiben cadw’r cofnodion a bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi’u cwblhau.

## Eitem 2. Cofnodion, camau gweithredu a materion sy’n codi o’r cyfarfod diwethaf.

4. Unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi’u hadolygu a’u cytuno’n ffurfiol gan yr aelodau, byddant yn cael eu cyfieithu a’u cyhoeddi ar wefan CNC. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2024 a’u derbyn fel cofnod cywir.

5. Bu’r grŵp yn adolygu’r camau gweithredu sydd heb eu cyflawni a rhoddwyd diweddariadau llafar lle bo’n bosibl.

- Mae nifer o gamau gweithredu heb eu cyflawni yn ymwneud ag afancod.
- Rhoddodd Liz Halliwell, CNC y diweddariad ysgrifenedig canlynol:

  ‘*Nododd y Gweinidog Newid Hinsawdd y byddai sefyllfa bolisi gliriach ar afancod yng Nghymru yn fuddiol a gofynnwyd i CNC weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael i lywio datblygiad sefyllfa o'r fath. Y bwriad wedyn oedd helpu i ffurfio fframwaith polisi a chytundeb ar rôl afancod wrth adfer ecosystemau yng Nghymru a llywio'r sefyllfa o ran amddiffyn afancod yng Nghymru.*

  *Mae CNC wedi adolygu’r dystiolaeth sydd ar gael ar afancod, gan ei hystyried yng nghyd-destun yr amgylchedd yn Nghymru a fframwaith polisi amgylcheddol a chyfreithiol Cymru. Roedd yr adolygiad hwn yn ystyried effeithiau posibl afancod yn amgylchedd Cymru a fframwaith polisi amgylcheddol a chyfreithiol Cymru. Rydym wedi defnyddio'r adolygiadau tystiolaeth presennol o Loegr a'r Alban i asesu sut y gallent fod yn berthnasol i Gymru a nodi unrhyw fylchau tystiolaeth.*

  *Rydym wedi gorffen y gwaith ac wedi’i anfon at Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried y camau nesaf*’.

- Pwynt Gweithredu Medi 10: Rachel Lewis Davies, NFU Cymru i wirio a wnaethon nhw gyflwyno llythyr ffurfiol at CNC yn rhoi manylion pryderon ynglŷn â’r system gynllunio yn atal cydymffurfiaeth gyda’r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a rôl CNC fel ymgynghorai statudol.
- Dywedodd Rachel fod y llythyr yn mynd at yr holl Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru. Roedd y llythyr yn eithaf cyffredinol, ac roedd yn ddefnyddiol iawn o safbwynt gallu cyfarfod gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol ar lefel leol.

- Pwynt Gweithredu Mawrth 01: Bronwen Martin i siarad gyda chydweithwyr ynglŷn â chynnwys gwybodaeth gyffredinol am fodolaeth y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar wefan CNC.
- Rhannwyd gwybodaeth gyda chydweithwyr digidol CNC i'w chyhoeddi ar wefan allanol CNC.

## Eitem 3. Rhaglen Adfer Afonydd

6. Ymunodd Suzanne Hearn a Rhodri Powell, CNC â'r cyfarfod i roi trosolwg o'r Rhaglen Adfer Afonydd a chrynodeb o rai o'r prosiectau.

7. Mae adfer afonydd yn cynnwys adfer ffurfiau a phrosesau naturiol afonydd sy'n creu ac yn cynnal cynefinoedd a rhywogaethau ffisegol, a thrwy hynny gynnal ecosystemau

dŵr croyw gwydn. Mae'n golygu cymryd agwedd sy'n ystyried y rhyngweithio rhwng coridor yr afon a'r dalgylch ehangach.

8. Gweledigaeth y Rhaglen: adfer afonydd, gorlifdiroedd a dalgylchoedd ar gyfer cynefinoedd, bywyd gwyllt a chenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Bydd y rhaglen yn mesur gwaith adfer afonydd ledled Cymru gyda'r nod o wella 200-1000km o afonydd erbyn 2030. Rhoddodd Suzanne grynodeb o'r mathau o brosiectau adfer sy'n cael eu cyflawni.

9. Rhoddodd Rhodri drosolwg o rai o'r prosiectau o fewn y Prosiect Addasiadau Ffisegol (PhysMods). Amcanion y Prosiect:

    - Mynd i'r afael ag addasiadau ffisegol mewn afonydd, y prif reswm dros beidio â Chyflawni Statws Da a symud cyrff dŵr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr tuag at statws ecolegol da.
    - Cefnogi atebion sy'n seiliedig ar natur yn uniongyrchol yn unol â Dyletswydd Adran 6 CNC
    - Ariennir gan Gronfa Argyfyngau Natur a Hinsawdd Llywodraeth Cymru
    - Rheoli'r Prosiectau Adfer Afonydd ar raddfa fawr, prosiectau cenedlaethol, cymhleth a dalgylchoedd cyfle

10. Rhannwyd crynodeb byr o'r amserlen gyda'r grŵp. Bydd yn ymestyn dros gyfnod o tua 5 mlynedd gyda gweithdy blaenoriaethu cychwynnol wedi’i gynnal yn 2019, a rhagwelir y bydd gwaith yn cael ei gyflawni rhwng 2023-2025.

11. Mae'r lleoliadau blaenoriaeth wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ledled Cymru. Rhoddodd Rhodri drosolwg o rai astudiaethau achos gan gynnwys y gwaith ar Afon Pelenna, Castell-nedd sydd wedi'i gyflawni. Mae'r gwaith ar Nant Dowlais yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae'r cwrs dŵr hwn yn methu oherwydd materion yn ymwneud â hynt pysgod a materion ansawdd dŵr ac mae pwysau hefyd o ran y rhwystrau a gwaddod. Cafodd Nant Dowlais ei sythu’n hanesyddol sydd wedi achosi problemau’n ymwneud â datgysylltu o’r gorlifdir ac ychydig iawn o gynefin sefydledig o ganlyniad i ddiffyg nodweddion sianel. Mae CNC wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r ffermwr tenant a'r tirfeddianwyr bob ochr i'r cwrs dŵr oherwydd bod yr ardal yn cael ei defnyddio ar gyfer da byw. Rydym wedi datblygu'r ateb sy'n ailgysylltu Dowlais â'i sianeli paleo (aliniad hanesyddol). Rydym yn mynd i ailraddio gwely’r afon i wella cysylltiad â'r gorlifdir, creu ardaloedd o gynefin dŵr cefn a chael gwared ar gwlfer sy'n rhwystro mudiad pysgod yn sylweddol.

12. Graean Llandinam, Afon Hafren yw'r prosiect mwyaf yn y rhaglen waith. Mae'r safle yn warchodfa natur sy'n eiddo i Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn. Mae'n safle pwysig ar gyfer cynefinoedd graean afonol agored sy'n bwysig ar gyfer infertebratau ac yn rhoi cyfle i eogiaid a brithyllod silio. Mae’r rhan hon wedi cael ei sythu yn y gorffennol ac mae llawer o waith carthu parhaus heb gydsyniad wedi bod yn cael ei wneud yno dros y blynyddoedd. Mae'r ardal gyfagos, sef pentref Llandinam, wedi dioddef llifogydd mewnol ac allanol yn ystod y blynyddoedd diwethaf hefyd. Mae'n brosiect eithaf cymhleth gyda llawer o faterion sy’n newid. Mae CNC wedi bod yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn i ddatblygu cynllun i gyd-fynd â’u syniadau ar gyfer y safle a bydd yn seiliedig ar ailgychwyn prosesau naturiol. Ein nod yw creu crafiadau bach a gosod deunydd coediog mawr yn y gorlifdir ac yn y sianel. Mae’r gwaith modelu a wnaed yn dangos y bydd hyn yn arwain at greu gwead plethog ar wely’r afon a fydd

yn darparu cynefin pwysig i anifeiliaid di asgwrn cefn a physgod. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda Chyngor Sir Powys ar y cynllun hwn, yn enwedig o ran y materion yn ymwneud â llifogydd.

13. Soniodd Robert South, Confor, o safbwynt coedwigaeth a Chynllun Creu Coetir Cymru, bod CNC yn rheoleiddio'n helaeth o ran pa mor agos y gallwn fynd at gyrsiau dŵr, ac yn Lloegr, maent yn talu am waith adfer glannau, creu cysgod a chadw afonydd yn oer. Gallai Cynlluniau Creu Coetiroedd fod o fudd i'r afonydd pe baent wedi'u cynllunio gyda chreu gwahanol gynefinoedd mewn golwg. Mae'n eithaf diddorol bod Cymru wedi cymryd safbwynt gwahanol iawn i Loegr, lle rydyn ni'n derbyn tâl ychwanegol i greu cysgod neu i atgyfnerthu glannau afonydd. Mae'r prosiectau yng Nghymru'n swnio'n wych, ond mae'n wahanol iawn i'r gwaith cadwraeth mewn rhanbarthau eraill. Dywedodd Michelle Griffiths, CNC bod hynny, fwy na thebyg, yn rhywbeth i Lywodraeth Cymru ei ystyried (e.e., y cyfle, y mathau o gynlluniau, ariannu a hyrwyddo cynlluniau). Dywedodd Robert, yn Lloegr mae modd plannu ar lannau afonydd os ydych chi'n creu cysgod ar gyfer cynefin, ond os ydych chi'n defnyddio cymysgedd penodol o rywogaethau ar safleoedd priodol, byddwch yn derbyn tâl ychwanegol am gadw'r afonydd yn oer fel cyfraniad ychwanegol. Mae'r holl broses gyllido yn wahanol iawn, ond yng Nghymru mae llawer o'n prif afonydd a'n llednentydd yn SoDdGAu a bydd y Tîm Coedwigaeth fel arfer yn ein gwthio yn ôl i o leiaf 15-20 metr oddi wrth y cwrs dŵr ar gyfer Cynllun Creu Coetir, sydd ymhell y tu hwnt i Safon Coedwigaeth y DU. Mae'r tirfeddianwyr yn gadael y darn hwn o dir heb ei gyffwrdd a fydd yn y pen draw yn cael ei adael heb ei reoli ac i erydu, lle byddai modd i ni ddefnyddio atebion yn seiliedig ar natur i sicrhau buddion lluosog gan warchod y cwrs dŵr ar yr un pryd mewn gwirionedd. Awgrymodd Robert efallai bod angen sgwrs ehangach o fewn CNC. Dywedodd John Browne, CNC bod cymariaethau â Lloegr yn wahanol iawn ac mai un o'r prif wahaniaethau yw'r dulliau ariannu. Mae cydweithiwr o CNC (Ben Wilson) yn ymwybodol iawn o'r Prosiect Cadw Afonydd yn Oer ac mae'n ceisio efelychu rhannau o hynny yng Nghymru (yn enwedig rhai o'r elfennau mapio). Fodd bynnag, nid yw'r cyllid sydd ar gael yng Nghymru ar yr un raddfa â Lloegr, a dyna'r ffactor unigol mwyaf. Mae Fforwm Pysgodfeydd Cymru yn cyfarfod ddydd Iau ac mae un o'u heitemau agenda yn ymwneud â chynlluniau cymhelliant a byddant yn trafod hynny er mwyn bod yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael mewn mannau eraill. Yn ogystal, nid oes modd plannu o fewn saith metr i lan yr afon mewn rhai mathau o afonydd, ac mae gennym ddeddfwriaeth benodol yng Nghymru i atal hynny.

***Pwynt Gweithredu Mehefin 01: Michelle Griffiths i egluro'r sefyllfa bresennol yng Nghymru o ran plannu coed ger afonydd ac adrodd yn ôl i Fforwm Rheoli Tir Cymru.***

14. Dywedodd Suzanne fod un o'r camau gweithredu allweddol o ran prosiectau adfer afonydd yn ymwneud â'r coridor a phlannu coed. Mewn sawl prosiect, mae coed yn cael eu plannu hyd at y lan ac mae ffensys yn cael eu gosod i'w gwarchod a'u galluogi i sefydlu. Er mae hyn yn dipyn o gydgyfeiriant polisi ac mae'n bosibl bod angen rhywfaint o fireinio. Dywedodd Suzanne bod ei chydweithiwr, Tristan Hatton-Ellis, wedi bod yn rhan o ganllawiau ar blannu coed mewn SoDdGAau.

15. Roedd Robert yn cofio profiadau o'r sector preifat wrth ddelio â Thîm Cynllunio Creu Coetir CNC a'r Tîm Rheoleiddio Coedwigoedd. Consensws cyffredinol yw beth bynnag yw'r pellteroedd UKFS, bydd bob amser o leiaf ddwywaith y pellter, er enghraifft, os bydd y UKFS yn dweud na allwch blannu o fewn 10 metr, bydd Cynllun Creu Coetir yn eich gwthio i 20 metr. Mae Cymru'n cymryd agwedd ofalus iawn tuag at risg ar gyfer

creu coetiroedd ar hyn o bryd. Soniodd Robert eu bod yn cael trafferth gyda nifer o'u cynlluniau eu hunain oherwydd eu bod wrth ymyl afonydd. Byddai'r safleoedd hyn yn elwa o gael eu gwella ond 'na' yw'r ateb diofyn gan CNC ac ni allwch gael sgwrs. Felly, mae angen mwy o ryngweithio rhwng ein sefydliadau. Cytunodd Michelle i egluro ein safbwynt ac adrodd yn ôl i Rwydwaith Rheoli Tir Cymru. Awgrymodd Michelle, yn y cyfamser, y gallai Robert ddarparu rhagor o wybodaeth neu enghreifftiau penodol sy'n arbennig o groes i sefyllfa CNC. Yna gallwn drafod hyn mewn sgwrs ar wahân.

***Pwynt Gweithredu Mehefin 02: Robert South, Confor i ddarparu rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau penodol ynghylch materion a wynebir wrth geisio plannu coed wrth ymyl cyrsiau dŵr.***

16. Dywedodd Rachel o ystyried mai'r nod trosfwaol yw ailgysylltu'r cyrsiau dŵr hyn â'r dalgylch, a oes proses ymgysylltu ffurfiol gyda ffermwyr a thirfeddianwyr wedi cymryd lle? Dywedodd Rachel ei bod yn cofio cyflwyniad blaenorol Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ar gynlluniau i adfer afonydd ar gyfer afon yng Ngogledd Cymru, ond nid oedd yr ymgynghorwyr allanol a benodwyd gan CNC wedi siarad ag unrhyw un o'r ffermwyr ar hyd y dalgylch. Dywedodd Suzanne fod cydweithwyr Lle yn arwain ar y cydweithrediad, ac mae'n cael ei wneud ar sail prosiect unigol. Ar y cam datblygu, ceir cwestiynau ynghylch a fyddem yn cydweithio ai peidio, a fyddai’n ychwanegu llawer o gostau i’r briff, a’r cyfyngiadau amser. Mae gennym gyllideb flynyddol yr ydym yn ceisio ei wario, ac rydym wedi cydweithio ar rai o’r cynlluniau. Fodd bynnag, bydd y Timau Prosiect hefyd yn mynd allan i gyfarfod â rhanddeiliaid ac yn eu cynnwys yn y broses. Wrth symud ymlaen, dyma'r prosiectau cydweithredol yr ydym wir eisiau eu gwthio, yn enwedig gyda chyd-ddatblygu mewn dalgylchoedd (ee, Prosiect Adfer Afon De-ddwyrain). Rydym wir eisiau adeiladu ar hynny, ond nid oes gennym ffordd ffurfiol o'i wneud ar hyn o bryd. Awgrymodd Rachel, lle bynnag y bydd unrhyw un o'r prosiectau hyn yn rhyngweithio â ffermwyr a thirfeddianwyr ar hyd afon, bod yn rhaid i sgyrsiau cynnar â'r rhai dan sylw fod yn egwyddor allweddol. Mae pryderon bod cynlluniau'n cael eu datblygu heb drafodaethau cynnar priodol ac mae CNC yn fwy tebygol o ddenu pobl drwy ymgysylltu'n gynnar. Atgoffodd Suzanne y grŵp ei bod yn cymryd blynyddoedd i gyrraedd cam cyflawni'r prosiect ac mae CNC yn cydweithio â ffermwyr a thirfeddianwyr, ac mewn llawer o achosion, maent yn barod iawn ac yn gefnogol. Disgrifiodd Suzanne y gwahaniaeth rhwng y cynllun lefel uchel a'r cynllun prosiect unigol.

17. Soniodd Dennis Matheson, TFA fod afon Tanat yn rhedeg trwy ei fferm rent. Cafodd yr afon ei sythu yn y 1920au ac nid yw’n dolennu bellach. Mewn achosion o lifogydd mawr, roedd yn gorlifo dros y glannau a grëwyd, a byddai’r dŵr yn eistedd yn y pantiau ac yn draenio’n araf. Tua 30 mlynedd yn ôl, gosododd yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol glogfeini mawr iawn yn yr afon i greu pyllau bach ar gyfer pysgod, a oedd yn llwyddiannus. Yna tua 25 mlynedd yn ôl, roedd yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol eisiau defnyddio eu cyllideb a gofynnodd a oedd gan Dennis ddiddordeb mewn cael 2000 metr o ffensys newydd ar y naill ochr i'r afon gyda phwyntiau yfed i gadw'r da byw allan. Cytunodd Dennis gan y byddai hyn yn disodli’r ffensys blaenorol a oedd wedi cael eu golchi i ffwrdd. Fodd bynnag, roedd y landlord yn flin iawn nad oedd Dennis wedi cael ei ganiatâd, er bod yn rhaid iddo adnewyddu ffensys o dan y cytundeb tenantiaeth. Roedd y landlord yn anhapus gan y byddai’n ei gwneud yn anoddach i bysgotwyr gyrraedd yr afon a bu’n rhaid iddynt osod camfeydd. Dywedodd Dennis nad oedd yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol yn gwrando pan awgrymodd y dylen nhw fod wedi gosod llifddorau lle’r oedd dolenni yn y gorffennol, felly mewn llifogydd, byddai’r

dŵr yn mynd dros y glannau tua throedfedd neu fwy, a byddai’r malurion yn mynd yn sownd yn y rhwydi, gan olygu bod pwysedd y dŵr yn codi mewn ffynhonnau tua 50 llath yn y cae ar yr ochr arall. Fe wnaeth hyn ansefydlogi’r ardal gyfan, a chafodd llawer iawn o bridd ei olchi i lawr yr afon. Felly, mae cydweithio â thirfeddianwyr a ffermwyr yn bwysig iawn.

Soniodd Dennis eu bod yn cael eu poeni gan bobl sy'n dod i'r afon heb ganiatâd. Mae pobl yn cerdded ar draws y tir i gyrraedd yr afon, yn rhoi eu canŵau i mewn ac yn mynd i lawr yr afon i'r bont nesaf a’u tynnu allan. Mae hyn yn tarfu ar y pysgod ac yn gwastadu cnydau wrth iddynt gerdded. Roedd Dennis yn cofio cyflwyniad yn y Fforwm Mynediad Cenedlaethol yn trafod gwneud pwyntiau mynediad yn orfodol ar dir. Yn gyffredinol, byddai ffermwyr yn erbyn hyn, gan y gallai mynediad i'r afon i bobl mewn canŵau fynd yn groes i geisio adfer cynefin a bywyd gwyllt. Cydnabu Suzanne brofiadau personol Dennis. Mae pob safle a phob prosiect yn wahanol a dyna pam ei bod yn cymryd amser hir iawn i gyrraedd elfen gyflenwi'r gwaith adfer.

18. Dywedodd Rhys ei fod yn dirwedd gymhleth gyda llawer o wahanol gynlluniau a phrosiectau a gofynnodd am y strategaeth neu flaenoriaethu cyffredinol. Dywedodd Suzanne yn y flwyddyn ddiwethaf, bod ein rhaglenni wedi mynd drwy broses fewnol Swyddfa Rheoli Rhaglenni (PMO) CNC - mae’r PMO yn bodoli i gefnogi’r busnes ar draws cwmpas cyfan ei rôl rheoli prosiectau a rhaglenni. Mae hyn wedi ein gorfodi i ystyried ac adlewyrchu beth rydym yn ei wneud gyda'r prosiectau a sut rydym yn dod â'r cyfan ynghyd. Yn y pen draw, mae'r gwaith hwn yn ymwneud â chynllunio dalgylchoedd, partneriaethau, integreiddio a chydweithio yn fewnol ac yn allanol. Dywedodd Rhodri fod y dull PMO newydd wedi helpu i strwythuro ein prosiectau, ac mae'r rhaglen yn darparu trosolwg o'r prosiectau unigol hynny fel ein bod yn gallu cael golwg ofodol ar ble rydym yn cyflawni mwy.

19. Dywedodd Robert bod llawer iawn o afonydd yn mynd trwy goetiroedd Cymru ac awgrymodd y gallai'r sector coedwigaeth breifat helpu i gyflawni llawer o welliannau pe bai cyllid ar gael - gallent ddarparu'r buddion am gost is i'r trethdalwr drwy well cydweithio. Mae'r diwydiant coedwigaeth yn addas iawn ar gyfer cyflawni prosiectau tebyg, er enghraifft mae gennym y profiad, mynediad at beiriannau a'r sgiliau i weithio o amgylch dŵr. Efallai y dylai hon fod yn sgwrs at y dyfodol.

20. Dywedodd Rachel ei bod wedi bod yn ddiddorol clywed am brosesau ymgysylltu mewnol CNC ac awgrymodd fod ymarfer tebyg ar ymgysylltu allanol yn cael ei ymgorffori i flaenoriaethu'r bobl sy'n rheoli'r tir yn y dalgylchoedd hyn oherwydd bod angen iddynt fod yn gefnogol.

## Eitem 4. Diweddariadau CNC

21. Cyn y cyfarfod, dosbarthwyd Papur Diweddaru Rhwydwaith Rheoli Tir Cymru. Anogir aelodau i adolygu'r ddogfen ymlaen llaw a dod i'r cyfarfod gyda chwestiynau. Cydnabu Rhys fod llawer o amser yn mynd i mewn i gynhyrchu Papur Diweddaru WLMF a diolchodd i'r rhai sydd wedi cyfrannu.

22. Soniodd Rhys am y wybodaeth ddiweddaraf am Goedwig Genedlaethol Cymru ac awgrymodd y byddai'n dda cael cyflwyniad yn y dyfodol ar hynny. Mae'n debyg y byddai gan y grŵp hwn ddiddordeb hefyd mewn clywed mwy am Natur am Byth a rôl rheoli tir wrth adfer rhywogaethau.

***Pwynt Gweithredu Mehefin 03: Bronwen Martin, CNC i edrych ar gyflwyniadau yn y dyfodol ar Goedwig Genedlaethol Cymru a Natur am Byth.***

23. Atgoffodd Michelle y grŵp, yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad, na all CNC gyflwyno eitemau mawr, ond anogodd y grŵp i barhau i rannu eu hymholiadau.

24. Soniodd Bronwen y byddai stondin CNC yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn dilyn thema gyffredinol yn ymwneud â’n gwaith gyda chymunedau. Bydd rhai gweithgareddau cyffredinol ar y stondin sy'n adlewyrchu ein gwaith. Bydd yr arddangosfeydd ar y stondin yn cynnwys ymateb i ddigwyddiadau, ymateb llifogydd, tipio anghyfreithlon yn ogystal â chyfle i ryngweithio gyda Shaun the Sheep a'r Cod Cefn Gwlad.

25. Soniodd John am ddatganiad diweddar i'r wasg a oedd yn dogfennu achos yng Ngŵyr lle cafodd tirfeddiannwr ei erlyn am dorri 8 hectar o goetir hynafol yn anghyfreithlon. Dyma'r achos cyntaf o'i fath yn y DU lle defnyddiwyd Deddf Enillion Troseddau 2002 (POCA).

26. Soniodd Bronwen am Adolygiad Fforwm CNC a fydd yn cynnwys arolwg rhanddeiliaid i’w gwblhau gan aelodau. Mae'r arolwg yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyhoeddi gan ddefnyddio Citizen Space. Ar ôl ei gwblhau, bydd dolen breifat i'r arolwg yn cael ei rhannu gydag aelodau er mwyn iddynt allu ymgysylltu â'r broses.

27. Ni wnaed unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â diweddariadau ysgrifenedig CNC.

## Eitem 5. Diweddariadau gan UAC / NFU Cymru / CFfI Cymru / Confor / CLA / TFA / Llywodraeth Cymru

28. **FUW:** Nid oedd cynrychiolydd yn bresennol.

29. **NFU Cymru:** Dywedodd Rachel fod NFU Cymru wedi cynnal ymgyrch yr wythnos ddiwethaf ar gyfer Wythnos Ffermio Cymru a fu’n brysur ac yn llwyddiannus iawn. Roedd yn cynnwys gwersi byw lle croesawom dros 21,000 o blant o ysgolion yng Nghymru a dangos iddynt sut mae hufen iâ fferm i fforc yn cael ei wneud a sut mae ffrwythau meddal yn cael eu tyfu. Ar y dydd Gwener, fe wnaethom ni dreulio’r diwrnod yng Nghaerdydd yn rhannu bwyd o ansawdd uchel o Gymru i bobl a oedd yn ymweld â’r ddinas.

    Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru. Bydd un o’n seminarau’n trafod thema rheoleiddio. Mae ffermwyr yn bryderus iawn am faich rheoleiddio ac mae'n eu rhoi o dan lawer o straen a phryder, yn benodol, cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Cynhelir seminar ar gyfer ein haelodau ar y prynhawn Llun.

    Yn yr hydref, rydym yn cynnal ein Cynhadledd Ffermio Cynaliadwy flynyddol sy'n arddangos cyfraniadau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ffermio yng Nghymru. Mae hynny'n digwydd ddydd Iau 12 Medi a bydd wedi'i leoli yng nghanolbarth Cymru ar fferm cig eidion a defaid sydd hefyd yn rheoli ardal fawr o dir comin – trwy garedigrwydd y teulu Lewis, Fferm Glanelan yn Rhaeadr. Dywedodd Rachel y byddai'n dosbarthu manylion pan maen nhw ar gael.

30. **CFfI Cymru:** Rhoddodd Angharad Davies gyflwyniad personol byr. Mae aelodau CFfI Cymru wedi cael amser prysur gyda ralïau a chystadlaethau. Mae CFfI Cymru yn brysur iawn yn gweithio tuag at gynlluniau ar gyfer Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru gyda chystadlaethau a chyfarfodydd gwahanol i'w cynnal yn adeilad CFfI ar faes y sioe.

    Bydd ein cynhadledd yn cael ei chynnal ym mis Ionawr 2020 ym Morgannwg eleni. Y thema bosibl ar gyfer y digwyddiad fydd edrych ar arallgyfeirio ar ffermydd, er nad yw hyn wedi'i gadarnhau eto.

31. **Confor:** Dywedodd Robert y bydd Confor hefyd yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru am y pedwar diwrnod cyfan. Mae nifer o ddigwyddiadau wedi'u cynllunio i gynnwys y cinio coedwigaeth traddodiadol ar y dydd Mawrth a brecwast coedwigaeth a ffermio ar y dydd Mercher sy'n cael ei noddi gan Confor a'r Grŵp Velcourt ond a fydd yn cael ei gynnal ym mhabell CLA.

    O ran ymgynghoriadau, ar hyn o bryd mae ymgynghoriad gan Lywodraeth y DU ar y Cynllun Masnachu Allyriadau a Marchnadoedd Seiliedig ar Natur y Dyfodol, a fydd yn cael effaith ar Gymru. Anogodd Robert aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru i edrych ar yr ymgynghoriad hwnnw. Os caiff y Cynllun Masnachu Allyriadau presennol y DU ei gyflwyno i gynlluniau sy'n bodoli eisoes yn seiliedig ar natur, fel y Cod Carbon Coetir, byddai hynny'n cael effaith ariannol enfawr ar berchnogion tir, a byddai gwerthoedd carbon coetir yn cynyddu'n aruthrol mewn cyfnod byr iawn, ond mae'n debygol y bydd yn agor cyfleoedd cyllido eraill i'r sector preifat.

    Mae Confor hefyd wedi gwneud dogfen sydd ar gael i'r cyhoedd ynghylch eu barn mewn perthynas ag Etholiad Cyffredinol presennol y DU.

32. **CLA:** Nid oedd cynrychiolydd yn bresennol.

33. **TFA Cymru:** Dywedodd Dennis Matheson fod TFA Cymru yn falch iawn bod cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi'i ohirio am 12 mis. Rydym i gyd eisiau ceisio datrys yr holl faterion a sicrhau ei fod ar gael i bob math o ffermwr yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd a ellir gwneud hyn erbyn 2026 gan ein bod eisoes wedi cael chwe blynedd o ymgynghori, ac nid yw'r cynigion presennol yn addas i'r diben.

    Dywedodd Dennis ei fod wedi mynychu digwyddiad Diwrnod Amgylchedd y Byd yn y Senedd a oedd yn ddiddorol iawn. Cafwyd sawl cyflwyniad, ond roedd yn amlwg iawn nad oedd sôn am ddiogelwch bwyd - roedd yn edrych fel ailadroddiad o gyflwyniad Cynllun Corfforaethol CNC yr hydref diwethaf. Dywedodd Dennis fod diogelwch bwyd yn fater pwysig iawn a'i fod yn uchel iawn ar yr agenda mewn trafodaethau eraill, ac awgrymodd efallai bod CNC ar ei hôl hi yn hyn o beth.

    Bydd TFA Cymru hefyd yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru. Nid oes stondin, ond gobeithiwn y byddwn yn cwrdd â chymaint o bobl â phosibl i drafod y prif faterion sy'n wynebu ffermwyr tenant ac amaethyddiaeth yng Nghymru.

34. **Llywodraeth Cymru:** Nid oedd cynrychiolydd yn bresennol.

35. Nododd Rhys nad yw'n ymddangos bod cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru yn mynychu llawer o gyfarfodydd WLMF. Eglurodd Bronwen fod Vicky Jones wedi cael gwahoddiad i fynychu pob cyfarfod ac wedi dirprwyo i Andrew Chambers yn y gorffennol. Soniodd Michelle fod gan Vicky Jones rôl newydd o fewn Llywodraeth Cymru ond mae presenoldeb Llywodraeth Cymru yn y fforwm hwn yn bwysig. Gellir

hefyd gasglu barn ar aelodaeth a chynrychiolwyr drwy Adolygiad Fforwm CNC a'r arolwg rhanddeiliaid.

## Eitem 6. Unrhyw fater arall

36. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 9 Medi wyneb yn wyneb yn Adeilad Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth - bydd rhagor o fanylion yn dilyn fuan.

37. Atgoffodd Rhys y grŵp bod eu cyfranogiad yn y fforwm yn hanfodol bwysig ac y dylent gyflwyno eitemau agenda a phynciau trafod posibl. Ar hyn o bryd, CNC sy’n meddwl am yr holl syniadau ar gyfer eitemau’r agenda, ond mae angen i aelodau gymryd perchnogaeth drwy gyfrannu at y rhagolwg.

38. Ni chodwyd unrhyw faterion ychwanegol.

## Diwedd y cyfarfod